# Swydd Wag

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Cyfarwyddwr Cerdd |
| **Cyflog:** | Agor i drafodaeth |
| **Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau:** | 20 Mawrth 2026 |

# Proffil Swydd

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Cerdd

Yn atebol i: Cyfarwyddwyr Cyffredinol

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn chwilio am Gyfarwyddwr Cerdd arbennig i gydweithio â'u Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'u Prif Weithredwyr newydd, Sarah Crabtree ac Adele Thomas, i greu gweledigaeth gymhellol a dyfodol disglair ar gyfer y Cwmni.

Datblygodd Opera Cenedlaethol Cymru allan o'r ysbryd democratiaeth wedi'r rhyfel ac obsesiwn llawr gwlad Cymru â'r llais dynol wrth ganu. Mae'r hanes hwn yn sail i'r ffordd yr hoffem ail-ddychmygu WNO fel cwmni opera'r dyfodol.

Gyda'i wreiddiau yng Nghymru, a rhwydwaith teithio unigryw ar hyd a lled Lloegr, hoffem i WNO fod yn sefydliad celfyddydol arloesol, dewr a chyfoes o fewn ecoleg celfyddyd byw y DU. Gan adeiladu ar ein henw da rhyngwladol ar gyfer rhagoriaeth gerddorol a bywiogrwydd theatrig, rydym yn rhagweld ein dyfodol fel un yn chwilio am amrywiaeth gwell, ar ein llwyfannau ac ymysg ein cynulleidfaoedd, ac yn cwestiynu'r hyn a all opera ei fod yn y byd modern.

Mae pedwar piler allweddol i'n huchelgais ar gyfer y Cwmni:

**ADEILADU CWMNI OPERA'R DYFODOL**
Rhoi cenedlaethau'r dyfodol o artistiaid, cyfranogwyr, cynulleidfaoedd a datblygiad ein celfyddyd wrth wraidd popeth a wnawn.

**EICH OPERA CENEDLAETHOL CYMRU/ YOUR WELSH NATIONAL OPERA**
Byddwn yn cryfhau hunaniaeth WNO fel cwmni opera democratig modern, sy'n croesawu diwylliant Cymru, yr iaith a'r amrywiaeth o dalent Gymreig ar y llwyfan ac oddi arno, wrth ddathlu ein rôl fel y cwmni teithio mwyaf yn y DU.

**CRYFDER MEWN PARTNERIAETH**
Byddwn yn sefydlu partneriaethau creadigol cyffrous a pherthnasoedd cyd-gynhyrchu ledled y diwydiannau creadigol i greu opera effeithiol, theatrig, unigryw, a hefyd yn treiddio'n ddyfnach yn y cymunedau lle ydym yn byw ac yn gweithio.

**NOSON ALLAN WEFREIDDIOL**
Byddwn yn creu rhaglen aml-ddimensiwn, hyblyg yn cynnig repertoire ailddychmygus ar y llwyfannau mwyaf ochr yn ochr â mannau penodol a llwyfannau llai, sy'n ein galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd mewn mannau annisgwyl.

# Manyleb Person

Dylai'r ymgeisydd delfrydol feddu ar:

- Hygrededd rhyngwladol fel arweinydd opera a all wella enw da WNO am ragoriaeth.
- Enw da mewn arloesi ynghyd â dealltwriaeth ddofn o'r repertoire a'r dyhead i ddylanwadu ar ddyfodol opera.
- Ymrwymiad i feithrin enaid theatrig a cherddorol y Cwmni ac ymrwymiad i ddatblygu talentau'r Corws a'r Gerddorfa yn eu cyfanrwydd neu fel unigolion.
- Awydd gwirioneddol i gydweithio â'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'r timau Gweinyddu Artistig a Cherddoriaeth i gynllunio a gweithredu rhaglen artistig ar draws popeth a wna'r Cwmni.
- Ymrwymiad i ddatblygu hunaniaeth Gymreig y Cwmni wrth raglennu a datblygu artistiaid.
- Diddordeb yng nghylch gorchwyl teithio WNO.
- Parodrwydd i gymryd rhan weithredol yng ngwahanol agweddau gwaith WNO, yng Nghaerdydd ac ar daith.
- Parodrwydd i fod yn eiriolwr ar gyfer gweledigaeth y Cwmni gyda'r gynulleidfa ehangach a rhanddeiliaid allweddol ar bob un o lwyfannau'r cyfryngau.
- Ymrwymiad i dreulio cyfran sylweddol o amser yng Nghaerdydd, ac i fod ar gael i staff uwch WNO yn rhithiol, pan nad ydych yn breswyl.
- Rydym yn rhagweld dyddiad cychwyn ar ddechrau tymor 2027/28, ond mae WNO yn agored i drafod hyn a hyd y ddeiliadaeth gydag ymgeiswyr sydd â diddordeb.

# Tâl ac Amodau

1. Mae’r cyflog y swydd hon ar agor i drafodaeth, yn ddibynnol ar brofiad.
2. Gellir trafod oriau gwaith yr wythnos.
3. Eich lleiafswm hawl gwyliau â thâl fydd 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus. Yn ogystal â’r hawl sylfaenol, bydd cydweithwyr sydd â thros 5 mlynedd o wasanaeth parhaus ar ddechrau’r flwyddyn wyliau yn gymwys am dri diwrnod ychwanegol o wyliau.
4. Mae gan weithwyr yr hawl i ymuno â chynllun pensiwn y Cwmni ar ôl tri mis o gyflogaeth. (Cyfraniad cyflogwr o 4%; cyfraniad gweithiwr o 4%).
5. Wrth ymuno â’r cynllun pensiwn, byddwch yn dod yn aelod o gynllun yswiriant bywyd grŵp y Cwmni sy’n rhoi'r hawl i’ch perthynas agosaf gael swm o arian sy’n gyfartal â thair gwaith eich cyflog blynyddol petaech yn marw yn ystod eich cyfnod o fod yn gweithio i'r Cwmni.
6. Parcio rhatach ym maes parcio Q Park ym Mae Caerdydd.
7. Rydym yn cefnogi cydweithwyr sydd am ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg, ac rydym yn cynnig gwersi Cymraeg sylfaenol a gwersi gwella dewisol yn rhad ac am ddim.
8. Rhaglen Cymorth i Weithwyr – Rydym yn cynnig gwasanaeth cwnsela a chynghori cyfrinachol yn rhad ac am ddim sydd ar gael i deulu ein holl weithwyr, gweithwyr llawrydd a chontractwyr.

WNO WELSH NATIONAL **OPERA** CENEDLAETHOL CYMRU